Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yng Nghymru

# Cynllun Gweithredu: CEF Caerdydd

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu: 03 Mehefin 2024

Ymateb i Archwiliad Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (HMIP): 29 Ionawr – 05 Chwefror 2024

Cyhoeddwyd yr Adroddiad: 08 Mai 2024

## CYFLWYNIAD

Mae Arolygiaeth Carchardai EF (HMIP) ac Arolygiaeth Prawf EF ar gyfer Cymru a Lloegr yn arolygiaethau annibynnol sy’n craffu ar yr amodau ar gyfer carcharorion a throseddwyr, a'r ffordd y cânt eu trin. Maent yn adrodd ar eu canfyddiadau ar gyfer carchardai, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ac effeithiolrwydd gwaith y gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid ledled Cymru a Lloegr i’r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. Mewn ymateb i’r adroddiad, rhaid i HMPPS a’r Weinyddiaeth Gyfiawnder lunio cynllun gweithredu cadarn ac amserol i fynd i'r afael â’r blaenoriaethau a’r pryderon allweddol. Mae cynlluniau gweithredu’n darparu camau a chamau gweithredu penodol i fynd i’r afael â’r blaenoriaethau a’r pryderon allweddol, sy’n glir, yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac yn berthnasol, gan nodi perchennog ac amserlen pob cam yn glir. Anfonir cynlluniau gweithredu at HMIP a’u cyhoeddi ar wefan GOV.UK. Bydd y cynnydd mewn perthynas â'r gwaith gweithredu a chyflawni’r cynlluniau gweithredu yn cael ei fonitro ac yn cael ei adrodd.

CYNLLUN GWEITHREDU: ADRODDIAD AROLYGIAETH CARCHARDAI EI MAWRHYDI

SEFYDLIAD: CEF CAERDYDD

| 1. Rhif Argymhelliad | 2. Pryderon | 3. Ymateb<br>Camau a Gymerwyd/a Gynlluniwyd | 4. Perchennog Cyfrifol | 5. Dyddiad Targed |
|---|---|---|---|---|
| | **Pryderon blaenoriaeth** | | | |
| 1 | **Roedd deg carcharor wedi cyflawni hunanladdiad ers ein harolygiad diwethaf.** Er bod cyfradd y hunan-niweidio wedi gostwng dros yr un cyfnod, roedd y gweithredu ar argymhellion yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf yn dilyn eu hymchwiliad i'r marwolaethau hyn yn wael. | Bydd y Pennaeth Diogelwch yn gwella'r gofal a'r cymorth i'r rhai mwyaf agored i niwed a'r rhai sydd mewn argyfwng, gan gynnwys dysgu o argymhellion yr Ombwdsmon Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf (PPO) drwy wneud y canlynol:<br>• Mae'r carchar wedi cynnal adolygiad llawn o'r cynllun gweithredu argymhellion presennol y PPO i olrhain cynnydd a gwella canlyniadau a dysgu, gan gynnwys system sgorio i flaenoriaethu argymhellion penodol.<br>• Parhau i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r argymhellion a wnaed gan y PPO, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â darparu gofal iechyd, gyda'r dysgu'n cael ei atgyfnerthu ymysg staff bob chwe mis.<br>• Mae cyfarfod pwrpasol wedi cael ei sefydlu i adolygu cynnydd o ran argymhellion y PPO, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Lywodraethwr, gyda chofnodion wedi'u cofnodi a phwyntiau gweithredu wedi'u cyfeirio i fonitro a chynnal cynnydd. Bydd unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau yn cael eu hadlewyrchu yn y cyfarfod dalfa mwy diogel misol.<br>• Bydd y Pennaeth Diogelwch a'r Pennaeth Gofal Iechyd yn cynnal cyfarfodydd adolygu rheolaidd i adolygu unrhyw argymhellion a wnaed gan y PPO ar y cyd a fydd yn cael eu hadlewyrchu yn y Grŵp Gweithredol Gofal Iechyd.<br>• Bydd hyfforddiant parhaus ar Hunanladdiad a Hunan-niweidio (SASH) i bob aelod o staff yn cael ei deilwra i gynnwys ymwybyddiaeth o argymhellion PPO perthnasol a phenodol.<br>• Mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud i ddeall y rhesymau dros y lefelau uwch o Hunan-niweidio (SH) yn y carchar, gan gynnwys cwblhau trefniadau 'safle clwstwr' y | Llywodraethwr | Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Mai 2024<br><br>Mai 2024<br><br>Wedi'i gwblhau<br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn foddhaol. Bydd lefelau SH yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, gan ddefnyddio cymorth rhanbarthol ychwanegol pan fo angen.<br>• Ymchwilir i bob digwyddiad o SH a ddosberthir fel 'digwyddiadau fu bron â digwydd' er mwyn canfod pwyntiau dysgu.<br>• Bydd y tîm diogelwch yn cefnogi rheolwyr achos gydag Asesiadau, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm (ACCT) i wella cynlluniau gofal a rheoli achosion.<br>• Bydd gwiriadau Sicrhau Ansawdd (QA) wythnosol gan reolwyr a'r tîm diogelwch yn sicrhau nad yw cydlynwyr achos yn cael eu newid oni bai mewn amgylchiadau eithriadol, a bod gwiriadau dyddiol yn cael eu cofnodi'n gywir yn unol â'r amlder a ragnodir.<br>• Sicrhau bod yr holl garcharorion sy'n cael cymorth gan y broses ACCT yn cael eu brysbennu i'w trafod yn y Cyfarfod Ymyrraeth Diogelwch (SIM) wythnosol, lle bydd camau gweithredu amlddisgyblaethol yn cael eu creu i sicrhau bod cymorth a thargedau priodol yn cael eu rhoi ar waith.<br>• Sicrhau bod unrhyw ddefnydd o ddillad atal-clymau yn cael ei awdurdodi gan reolwr priodol a'i gofnodi mewn cofnod canolog, gan nodi'n glir y rhesymau pam ei fod wedi cael ei awdurdodi.<br>• Bydd y tîm diogelwch yn gwella'r gwaith o gasglu ac adolygu'r holl ddata sy'n ymwneud â hunan-niweidio a marwolaethau yn y ddalfa er mwyn canfod tueddiadau a'r hyn sy'n sbarduno hunan-niweidio. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei thrafod yn y cyfarfod dalfa mwy diogel amlddisgyblaethol lle bydd camau gweithredu priodol i leihau hunan-niweidio yn cael eu hychwanegu at y cynllun gweithredu diogelwch cyfunol.<br>• Bydd monitro amserlenni, effeithiolrwydd ac effaith yr holl gamau gweithredu yn digwydd yn y cyfarfodydd SIM a Dalfa Mwy Diogel, gan fonitro gwelliannau drwy'r cynllun gweithredu diogelwch cyfunol. | | Wedi'i gwblhau<br>Wedi'i gwblhau<br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Mehefin 2024<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau |
| 2 | **Roedd gormod o gyffuriau anghyfreithlon yn mynd i'r carchar.** Roedd ychydig o dan chwarter yr holl | Bydd CEF Caerdydd yn ceisio lleihau faint o gyffuriau sydd ar gael drwy wneud y canlynol:<br><br>• Penodi arweinydd Strategaeth Cyffuriau newydd a fydd yn gyfrifol am oruchwylio gwaith ym maes sylweddau anghyfreithlon, gan ddwyn ynghyd ddata o bob rhan o'r carchar a | Llywodraethwr | <br><br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ganlyniadau profion cyffuriau ar hap yn bositif ac, yn ein harolwg, dywedodd llawer mwy o garcharorion nag mewn carchardai tebyg ei bod yn hawdd cael gafael ar gyffuriau anghyfreithlon. | gweithio gyda phartneriaid allweddol i fynd i'r afael â phroblemau camddefnyddio sylweddau.<br>• Mae gwaith buddsoddiad cyfalaf sylweddol i wella/cynyddu'r ddarpariaeth Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) ledled y carchar yn cael ei wneud ar hyn o bryd, gan roi'r gallu i'r carchar fonitro a chofnodi o'r Ystafell Reoli er mwyn cynyddu gallu ac effeithiolrwydd. Bydd yn gwella diogelwch y perimedr ac yn lleihau'r risg o daflu dros y muriau a dronau. Bydd y gwell darpariaeth teledu cylch cyfyng yn gwella'r broses o gasglu gwybodaeth ac yn galluogi'r carchar i fonitro ac ymateb i risgiau/bygythiadau, fel trosglwyddo eitemau anghyfreithlon ar ymweliadau.<br>• Adroddir am daliadau amheus i garcharorion ac mae'r camau gweithredu'n cynnwys herio carcharorion sy'n cael taliadau amheus, atal y taliadau a rhannu'r wybodaeth ag asiantaethau partner gan gynnwys yr Heddlu a'r Uned Ymchwiliadau Ariannol.<br>• Cynyddu gweithrediadau cudd i sicrhau prosesau a gweithdrefnau, gan gynnwys profi gweithdrefnau gwella diogelwch gatiau ac ymweliadau.<br>• Datblygu'r 'cynllun lleihau cyflenwadau', gan nodi risg a chamau gweithredu i liniaru unrhyw risgiau. Bydd hyn yn cael ei drafod yn y cyfarfodydd strategaeth cyffuriau a diogelwch misol.<br>• Parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth a gynigir yn yr Uned Byw Heb Sylweddau drwy Gymhellion.<br>• Tarfu ar gyflenwad cyffuriau anghyfreithlon drwy ddefnyddio ffynonellau chwilio a chanfod rhanbarthol yn seiliedig ar unrhyw ddeallusrwydd sy'n datblygu, wedi'i gydlynu gan yr arweinydd rhanbarthol ar gyfer diogelwch gyda mewnbwn gan randdeiliaid allweddol eraill.<br>• Cyfathrebu'n well â chydweithwyr yn Heddlu De Cymru i ddelio â'r troseddau difrifol sy'n cael eu cyfeirio atynt yn achos digwyddiadau fel ymosodiadau a chanfod cyffuriau, er mwyn gwella atebolrwydd ac ataliaeth.<br>• Parhau i gyfeirio pob carcharor sy'n cael canlyniad positif mewn prawf cyffuriau neu sy'n cael dyfarniad am ymddygiad sy'n gysylltiedig â chyffuriau, gan gynnwys eitemau a ganfuwyd wrth chwilio celloedd, at y darparwr gwasanaeth camddefnyddio sylweddau (Dyfodol) i gefnogi ymatal.<br>• Monitro gwybodaeth ddiogelwch yn barhaus i nodi bygythiadau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg drwy'r Asesiad Tactegol Lleol (LTA) misol a'r Bwrdd Tactegol Lleol (LTB), er | | Mawrth 2025<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau<br>Hydref 2024<br><br>Wedi'i gwblhau<br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | mwyn gallu nodi blaenoriaethau a bygythiadau allweddol, a defnyddio adnoddau yn unol â hynny. | | |
| 3 | **Roedd gwendidau ac anghysondebau yn y gwaith o oruchwylio a chynllunio gofal ar gyfer cleifion â chyflyrau iechyd hirdymor.** Roedd hyn yn creu'r risg na fyddid yn sylwi ar ddirywiad yn iechyd cleifion. | Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF) a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yng Nghymru yn gwella'r gwaith o oruchwylio a gofalu am gleifion sydd â Chyflyrau Iechyd Tymor Hir (LTC) drwy wneud y canlynol:<br><br>• Recriwtio staff gan canolbwyntio ar gyflogi unigolion sydd â sgiliau sy'n briodol i anghenion y claf. Mae adolygiad o'r gweithlu gofal iechyd yn mynd rhagddo, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn recriwtio uwch-aelodau o staff sydd â phrofiad mewn adrannau damweiniau ac achosion brys a nyrsio ardal.<br>• Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro nyrs ddatblygu benodol i wreiddio hyfforddiant yn y gweithlu. Mae pedwar nyrs staff eisoes wedi cael eu hyfforddi mewn Diabetes a gofal anadlol a chardiaidd. Ar hyn o bryd, mae dwy nyrs arall ar gyrsiau sy'n gorffen ym mis Mai, i gynnal eu clinigau eu hunain. Mae Systemau Iechyd Electronig (SystmOne) wedi creu templedi LTC penodol i gefnogi'r hyfforddiant hwn, er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r unigolion yn ein gofal.<br>• Ychwanegu meddygfa gyda phrofiad o LTC a recriwtio dau feddyg teulu newydd, gan sicrhau y bydd dwy sesiwn LTC benodol ar gyfer meddygon teulu pan fydd pob gweithiwr newydd yn ei le.<br>• Gweithredu trefn carchar newydd o fis Mehefin 2024 ymlaen a fydd yn rhyddhau staff gofal iechyd i gynnig darpariaeth LTC.<br>• Comisiynu asesiad o anghenion iechyd o ran y gwasanaethau a ddarperir yn CEF Caerdydd i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y boblogaeth.<br>• Mae dadansoddiad data'n cael ei rannu â'r Grŵp Gweithredol Gofal Iechyd (HOG) bob dau fis a'i fwydo i'r Bwrdd Partneriaeth Carchardai (PPB) iechyd bob chwarter, er mwyn helpu i nodi gwelliannau.<br>• Mae ymgysylltu rheolaidd yn digwydd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cefnogi'r cytundeb partneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF. Rydym yn cydnabod y manteision niferus y gall gwella iechyd a lles y rheini sydd yn y carchar eu cynnig, nid yn unig i'r unigolyn, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach ond hefyd drwy gyfrannu at adsefydlu, lleihau aildroseddu a chynnal amgylchedd carchar diogel. Bydd trefniadau ar gyfer | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro/ Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi Cymru | Parhaus<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Tachwedd 2024<br><br>Mehefin 2024<br>Tachwedd 2024<br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cynllunio LTC yn cael eu hychwanegu at y cytundeb partneriaeth nesaf ar gyfer iechyd troseddwyr gyda Llywodraeth Cymru | | |
| 4 | **Roedd gwendidau mewn addysgu a'r cwricwlwm.** Nid oedd y ddarpariaeth, gan gynnwys ar gyfer dysgwyr niwrowahanol, yn diwallu anghenion. Hefyd, nid oedd digon o addysg wyneb yn wyneb na darpariaeth alwedigaethol ar gyfer dysgwyr lefel 2 a 3. | Bydd Pennaeth Addysg, Sgiliau a Gwaith (HoESW) yn gwella ansawdd y ddarpariaeth addysg drwy:<br><br>• Adolygu'r cwricwlwm niwroamrywiaeth er mwyn i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ehangach, gyda chynlluniau dysgu unigol ar waith i gefnogi anghenion unigol dysgwyr.  Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n fisol gan reolwyr lleol at ddibenion sicrhau ansawdd ac adolygiadau yn y dyfodol.<br>• Adolygu'r cwricwlwm cyffredinol a'r ddarpariaeth alwedigaethol ar gyfer pob dysgwr a chymwysterau lefel uwch ysgrifenedig ar gyfer pob cwrs, er mwyn gwella'r cynnig sydd ar gael, gan gynnwys darpariaeth wyneb yn wyneb ar gyfer dysgwyr lefel 2 a 3.<br>• Bydd y ddarpariaeth gweithdai i ddarparu cymwysterau galwedigaethol ychwanegol yn cael ei hadolygu ar ôl cwblhau prosiect cynnal a chadw sydd i fod i gael ei gwblhau ym mis Mai 2024.<br>• Hyrwyddo gwasanaethau llyfrgell ar yr adain, ac yn ystod y cyfnod cynefino, i roi gwybod i garcharorion sut i gael mynediad i'r llyfrgell a'r gwasanaethau a ddarperir.<br>• Archwilio ffyrdd o gynyddu'r seilwaith a'r dyfeisiau Technoleg Gwybodaeth (TG) sydd ar gael i alluogi dysgwyr i gael gafael ar ddeunyddiau addas, gan ymgorffori ac ehangu ei ddefnydd ar draws y ddarpariaeth i ddatblygu eu sgiliau TG.<br>• Cynyddu'r ddarpariaeth sydd ar gael i alluogi siaradwyr neu ddysgwyr Cymraeg i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg.<br>• Sicrhau bod pob athro yn cael adborth priodol i wella ansawdd eu haddysgu.<br>• Bydd y gwaith o gyflawni ac effaith y gwelliannau yn cael ei fonitro gan y Rheolwr Ansawdd addysg a'i adolygu yng nghyfarfod y Grŵp Gwella Ansawdd (QIG) bob deufis. | Llywodraethwr | <br><br>Mehefin 2024<br><br>Gorffennaf 2024<br><br>Awst 2024<br><br>Mehefin 2024<br>Gorffennaf 2024<br><br>Medi 2024<br><br>Hydref 2024<br><br>Hydref 2024 |
| 5 | **Roedd prosesau adrodd gwael o ran addysg yn golygu bod uwch-arweinwyr wedi methu â nodi effaith** | Bydd HoESW yn gwella prosesau adrodd i fonitro effaith y cwricwlwm drwy:<br><br>• Adolygu cwricwlwm SHC. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar effaith newidiadau i'r cwricwlwm ar yr holl ddysgwyr a staff yn y tîm addysg. | Llywodraethwr | <br><br>Gorffennaf 2024 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **negyddol newidiadau diweddar i'r cwricwlwm ar gyfer rhai dysgwyr.** | • Cymeradwyo unrhyw newidiadau i'r cwricwlwm yn y dyfodol yng nghyfarfod y QIG. Bydd uwch-arweinwyr yn sicrhau bod yr holl staff ar draws Sgiliau Hanfodol Cymru yn cael eu diweddaru ac yn deall eu rolau mewn perthynas â diweddaru'r cwricwlwm.<br>• Adolygu'r Fframwaith Ansawdd (QF) i roi cynllunydd blynyddol mwy cadarn a chyson i'r Rheolwr Ansawdd ar gyfer arsylwadau addysgu a throeon dysgu. Bydd staff, rheolwyr unedau ac uwch-arweinwyr eraill yn cyfrannu at ddarparu sicrwydd a dysgu ychwanegol fel rhan o gylch sicrwydd blynyddol y Fframwaith Ansawdd.<br>• Sicrhau bod carcharorion yn derbyn gweithgaredd sy'n cyd-fynd â'u diddordebau a bod y trefniadau dyrannu'n deg i bob carcharor.<br>• Bydd Pennaeth Sgiliau Hanfodol Cymru a'r Rheolwr Ansawdd yn defnyddio data CURIOUS (cronfa ddata sy'n cofnodi asesiadau cychwynnol carcharorion, cyfranogiad a chyflawniad mewn cyrsiau), gwybodaeth Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), ynghyd ag adborth athrawon a dysgwyr i fonitro effeithiolrwydd y cwricwlwm a fydd yn cael ei drafod yn y QIG. | | Mehefin 2024<br><br>Hydref 2024<br><br>Awst 2024<br><br>Gorffennaf 2024 |
| 6 | **Roedd gormod o garcharorion wedi cael eu rhyddhau'n ddigartref neu heb lety cynaliadwy.** | Bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yng Nghymru, Gwasanaeth Prawf Cymru a CEF Caerdydd yn gwella canlyniadau llety i garcharorion sy'n cael eu rhyddhau drwy:<br><br>• Bydd tîm cyn-rhyddhau y Gwasanaeth Prawf yn cyfweld â'r holl garcharorion ar ôl iddynt gyrraedd y carchar i ganfod eu hanghenion adsefydlu (gan gynnwys llety) gan ddefnyddio Cyfweliad dan Arweiniad Model Ailsefydlu Mabwysiadwyr Cynnar Cymru sydd wedi'i gynnwys yn natblygiad cenedlaethol Paratoi rhywun i'w Ryddhau, yr un sy'n cymryd lle BCST2, lle mae Cymru'n rhanbarth dreialu. Mae hyn yn caniatáu i unrhyw waith ymyrryd ynghylch digartrefedd ddechrau cyn gynted â phosibl. Dilynir hyn gan gyfarfod cynllunio cyn-rhyddhau 12 wythnos cyn rhyddhau'r unigolyn, er mwyn sicrhau bod dull gweithredu cydlynol yn digwydd o ran atgyfeirio at wasanaethau cymunedol priodol a chyfathrebu â'r Ymarferydd Prawf Cymunedol.<br>• Mae perfformiad Gwasanaeth Prawf Cymru yn erbyn gweithgarwch cyn-rhyddhau yn cael ei adrodd i'r PGD a'r RPD drwy gyfarfodydd misol y Fforwm Uwch-arweinwyr (SLF). Ar ben hynny, mae dadansoddiad data a chanlyniadau i fonitro cynnydd a nodi meysydd | HMPPS yng Nghymru/WPS/ Llywodraethwr | Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | posibl i'w gwella yn eitem ar yr agenda yn y cyfarfod lleihau aildroseddu bob deufis, lle bydd camau gweithredu priodol yn cael eu creu i fynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder.<br>• Bydd yr Uwch-swyddog Prawf (SPO) yn y carchar yn olrhain pob trosglwyddiad o'r POM i'r Rheolwr Troseddwyr Cymunedol (COM), er mwyn sicrhau bod y Rheolwr Troseddwyr Cymunedol yn mynd i'r afael â gofynion adsefydlu cyn symud o'r ddalfa i'r gymuned. Os bydd y POM yn nodi materion/oedi wrth fynd i'r afael â chamau gweithredu, neu ddiffyg ymateb gan Reolwyr Troseddwyr Cymunedol, bydd yr Uwch-swyddog Prawf yn uwchgyfeirio eu pryderon i Bennaeth Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf dan sylw.<br>• Bydd Ymarferwyr Prawf Adsefydlu (PRR)/ Ymarferwyr Prawf Cymunedol (CPP) yn cyflymu atgyfeiriadau at ddarparwyr y Gwasanaeth Adsefydlu wedi'u Comisiynu (CRS) ar gyfer carcharorion sy'n bwrw dedfrydau byr o lai na 20 diwrnod neu sydd â llai na 20 diwrnod i'w fwrw ar adeg y ddedfryd.<br>• Mae Cydlynwyr Llwybr Llety (APC) wedi cael eu penodi ym mhob rhanbarth gan Dîm y Tasglu Atal Digartrefedd (HPT). Rôl yr APC yw darparu cyswllt rhwng Carchardai, Prawf ac Awdurdodau Lleol. Mae'r APC yn cwrdd bob wythnos ag Awdurdodau Lleol i adolygu'r holl ryddhau sydd ar y gweill ar gyfer eu hardaloedd. | | Wedi'i gwblhau<br><br>Hydref 2024<br><br>Wedi'i gwblhau |
| | **Pryderon allweddol** | | | |
| 7 | **Roedd y carchar yn hynod orlawn.** Cafodd bron i ddwy ran o dair o garcharorion eu paru mewn celloedd a ddyluniwyd yn wreiddiol ar gyfer un. | Mae fframwaith ardystio celloedd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn mynnu mai dim ond pan fydd Cyfarwyddwr Grŵp Carchardai wedi asesu eu bod o faint a chyflwr digonol y bydd celloedd yn cael eu rhannu. Mae safonau eraill wedi'u nodi yn y fframwaith, gan gynnwys goleuo, gwresogi, awyru, ffitiadau digonol, a mynediad at ddŵr a glanweithdra. Mae'r safonau hyn yn sicrhau bod carcharorion yn cael eu lletya'n ddiogel hyd yn oed mewn amodau llawn.<br><br>Rydym yn darparu 20,000 o leoedd ychwanegol mewn carchardai modern heb fod yn llawn, y rhaglen adeiladu carchardai fwyaf ers oes Fictoria, gan sicrhau bod yr amodau cywir ar waith i adsefydlu carcharorion, gan helpu i leihau troseddu a diogelu'r cyhoedd. Rydym eisoes wedi darparu tua 5,900 o leoedd, gan gynnwys drwy ein dau garchar newydd sydd â | HMPPS/PGD/ Llywodraethwr | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 1,700 o lefydd, sef CEF Five Wells a CEF Fosse Way a bydd 10,000 wedi cael eu hadeiladu erbyn diwedd 2025.<br><br>Bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, Cyfarwyddwr y Grŵp Carchardai (PGD), a'r Llywodraethwr yn parhau i adolygu capasiti gweithredol yng Ngharchar Caerdydd yn unol â'r fframwaith ar gyfer ardystio llety i garcharorion er mwyn lleihau gorlenwi lle bo hynny'n bosibl. | | Parhaus |
| 8 | **Nid oedd y cynllun gwaith allweddol yn gweithredu'n effeithiol.** Nid oedd y rhan fwyaf o garcharorion yn cael sesiynau rheolaidd gyda swyddog a enwir. | Bydd CEF Caerdydd yn gwella darpariaeth ac ansawdd gwaith allweddol i gefnogi carcharorion i fwrw ymlaen â'u dedfryd drwy:<br><br>• Cynhaliwyd ymarfer ailbroffilio adnoddau staff a bwriedir rhoi'r proffil newydd ar waith ym mis Mehefin 2024. Bydd hyn yn rhyddhau gweithwyr allweddol i gwblhau sesiynau gyda mwy o ragweladwyedd a dibynadwyedd.<br>• Bydd gweithredu'r Cynllun Rheoli Cyfundrefn (RMP) diwygiedig yn safoni'r rhestr taro i lawr er mwyn sicrhau nad yw gwaith allweddol ar draul meysydd eraill. Bydd hyn yn cael ei fonitro, er mwyn ei gyflawni'n gyson, yn y cyfarfod briffio gweithredol dyddiol a'r cyfarfod adnoddau wythnosol.<br>• Darparu hyfforddiant a chefnogaeth i Reolwyr Carcharu (CM) i sicrhau eu bod yn deall y Cynllun Rheoli Risg a'i roi ar waith yn unol â hynny er mwyn lleihau'r effaith ar ddarparu Gwaith Allweddol.<br>• Darparu o leiaf un sesiwn waith allweddol y mis ar gyfer pob carcharor yn unol â pholisi cenedlaethol. Bydd carcharorion y nodwyd bod angen mwy o gymorth arnynt oherwydd gwendidau yn cael dwy sesiwn y mis.<br>• Neilltuo gweithiwr allweddol i gwblhau sesiwn waith allweddol gychwynnol ar gyfer pob derbyniad newydd o fewn 14 diwrnod i gyrraedd y carchar.<br>• Cyflwyno cyfarfodydd bob deufis gyda Rheolwyr Preswyl, Penaethiaid Preswyl a Rheolwyr Unedau Rheoli Troseddwyr (OMU) ar gynnydd gweithwyr allweddol, gan sicrhau bod perthnasoedd adeiladol yn cael eu datblygu gan feithrin ymddygiad cadarnhaol. Wedi'i gefnogi gan archwiliad Sicrhau Ansawdd misol o 10% o nodiadau | Llywodraethwr | <br><br>Mehefin 2024<br><br>Mehefin 2024<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Gorffennaf 2024<br><br>Gorffennaf 2024<br>Medi 2024 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gweithwyr allweddol gan CM Preswyl, gyda Phenaethiaid Gwasanaethau a Darpariaeth Unedau Rheoli Troseddwyr yn gwirio 10% o wiriadau'r CM.<br>• Cyflwyno Strategaeth a chynllun gweithredu diwygiedig ar gyfer Gweithwyr Allweddol, gan gynnwys proses newydd ar gyfer dyrannu gweithwyr allweddol, a fydd yn cynnwys uwchsgilio a datblygu grwpiau staff sy'n ymwneud â Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC) a strategaethau Gweithwyr Allweddol. Bydd ansawdd a darpariaeth y gweithiwr allweddol, gan gynnwys amlder, a sgyrsiau adsefydlu pwrpasol, yn cael eu monitro gan Bennaeth y Gwasanaethau Rheoli Troseddwyr, a byddir yn adrodd arnynt yn y cyfarfod perfformiad a sicrwydd misol. | | Medi 2024 |
| 9 | **Roedd rhai agweddau ar ymarfer fferylliaeth yn is na'r safonau disgwyliedig.** Nid oedd rheoli a defnyddio meddyginiaethau stoc, dosbarthu eilaidd a'r diffyg cyfyngiadau ar fannau storio cyffuriau yn cyd-fynd ag arfer da. | Bydd BIP Caerdydd a CEF Caerdydd yn gwella safonau rheoli meddyginiaethau drwy wneud y canlynol:<br>• Adolygu'n barhaus y gwaith o reoli a defnyddio meddyginiaethau yn y Cyfarfod Rheoli Meddyginiaethau (MM) misol.<br>• Atgoffa staff mai dim ond pobl awdurdodedig sy'n cael mynd i mewn i ystafelloedd dosbarthu, a hynny'n cael ei gyfleu i'r holl staff gofal iechyd a staff y carchar drwy hysbysiadau, gyda gwiriadau rheolaidd i wirio cydymffurfedd.<br>• Rhoi rhaglen o archwiliadau celloedd wythnosol ar waith fel rhan o'r polisi Meddu ar Feddyginiaeth (IP).<br>• Archwilio opsiynau i ddarparu loceri y gellir eu cloi mewn celloedd er mwyn i garcharorion storio eu meddyginiaeth IP yn ddiogel.<br>• Bydd y Dirprwy Lywodraethwr a'r Pennaeth Gofal Iechyd yn edrych ar opsiynau i gynyddu'r lle storio sydd ar gael fel bod modd diogelu meddyginiaethau a throliau bob amser.<br>• Bydd CMau Preswyl a Swyddogion Goruchwylio yn sicrhau bod yr holl giwiau meddyginiaeth yn cael eu goruchwylio'n briodol i roi preifatrwydd i gleifion wrth y drws ac i atal y feddyginiaeth rhag cael ei dal yn ôl.<br>• Bydd trosolwg o arferion fferylliaeth yn y cytundeb partneriaeth carchardai ar gyfer iechyd carchardai yng Nghymru, sy'n ymdrechu i gynorthwyo BIP Caerdydd a'r Fro i | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro/ Llywodraethwr | Wedi'i gwblhau<br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau<br>Tachwedd 2024<br>Tachwedd 2024<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ddatblygu safonau ar gyfer MM mewn carchardai yng Nghymru. Mae'r grŵp hwn yn ymdrechu i gael dull cyson o bresgripsiynu yng ngharchardai Cymru drwy ddatblygu safonau ar gyfer MM a llyfr fformiwlâu Cymru gyfan. Rhoddir ystyriaeth i gludo a storio meddyginiaeth, a'u hatal rhag cael eu dargyfeirio. Bydd mynediad at therapïau amgen a gynigir yn y gymuned yn cael ei adlewyrchu. | | |
| 10 | **Roedd carcharorion yn aros yn llawer rhy hir i gael triniaeth ddeintyddol frys.** | Bydd BIP Caerdydd a'r Fro a CEF Caerdydd yn gwella amseroedd aros deintyddol drwy wneud y canlynol:<br><br>• Cyswllt parhaus â'r darparwr deintyddol i gynyddu'r sesiynau deintyddol sydd ar gael i ateb y galw.<br>• Dyrannu pedwar apwyntiad brys i bob clinig er mwyn lleihau amseroedd aros.<br>• Sicrhau bod pob claf sy'n mynd i apwyntiad deintyddol yn cael cynnig taflenni cyngor ar faterion deintyddol a hunanofal cyffredin, i hyrwyddo gwella iechyd y geg.<br>• Rhoi manylion hebrwng i staff y carchar i sicrhau bod clinigau'n parhau i weithredu ar ddiwrnodau hyfforddi staff/diwrnodau cau.<br>• Bydd ailbroffilio adnoddau staff a'r RMP cysylltiedig yn sicrhau bod staff y carchar bob amser yn cael eu nodi i hebrwng carcharorion i apwyntiadau er mwyn lleihau nifer y bobl nad ydynt yn mynychu apwyntiadau. | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro/ Llywodraethwr | Gorffennaf 2024<br>Wedi'i gwblhau<br>Wedi'i gwblhau<br>Wedi'i gwblhau<br>Mehefin 2024 |
| 11 | **Nid oedd gwerthuso addysgu a dadansoddi data wedi cael ei ddefnyddio'n ddigon da i nodi meysydd i'w gwella.** | Bydd HoESW yn gwella'r gwaith o werthuso addysgu a dadansoddi data er mwyn nodi meysydd i'w gwella drwy:<br><br>• Adolygu'r Fframwaith Ansawdd i gefnogi gwerthusiad mwy cadarn a chyson o addysgu, ochr yn ochr â chynllunydd blynyddol ar gyfer arsylwadau addysgu a throeon dysgu a fydd yn nodi meysydd i'w gwella a DPP ar gyfer staff, gan gynnwys adborth priodol i wella ansawdd yr addysgu.<br>• Bydd rheolwyr yn gwerthuso'r holl ddata sydd ar gael, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddata CURIOUS, gwybodaeth DPP, adborth athrawon a dysgwyr i nodi meysydd sydd angen eu gwella. Bydd gan y QIG eitem sefydlog ar yr agenda i drafod y data a chynhyrchu camau gweithredu priodol a fydd yn cael eu cynnwys yn y cynllun | Llywodraethwr | Hydref 2024<br><br>Gorffennaf 2024 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gweithredu ar gyflawni addysg. Bydd y Rheolwr Ansawdd Rhanbarthol yn darparu cymorth ychwanegol ac yn adolygu'r canfyddiadau.<br>• Bydd data'n cael ei ddefnyddio i nodi meysydd o weithdrefn y carchar a allai effeithio ar bresenoldeb neu ddarpariaeth, gan gynnwys amserlennu, diffyg presenoldeb a sancsiynau ymddygiad. Bydd materion a nodir yn cael eu codi yn y cyfarfod briffio gweithredol dyddiol i edrych ar opsiynau i oresgyn rhwystrau rhag cyflawni. | | Awst 2024 |